Swansea University
Prifysgol Abertawe

# Prifysgol Abertawe

## Nodyn Arweiniad Rheoli Gwastraff WMGN21:

- Gwastraff Soled a Halogwyd gan Gemegau (Sach Goch)

| | |
|---|---|
| **Awdur:** | Ben Harris (Swyddog yr Amgylchedd) |
| **Cymeradwywyd gan:** | Teifion Maddocks (Arweinydd Cynaliadwyedd |
| **Dyddiad creu:** | 09/11/2018 |
| **Dyddiad y fersiwn:** | 29/06/2026 |

| Nodyn Arweiniad Rheoli Gwastraff WMGN21<br>Gwastraff Soled a Halogwyd gan Gemegau (Sach Goch) | |
|---|---|
| Leoliad Cynhyrchu | Unrhyw labordy neu weithdy |
| Côd Gwastraff Ewropeaidd (EWC) | 15 02 02* / 15 01 10* / 16 03 03* / 16 03 05* |
| Math | Rheoledig – Gwastraff Peryglus |
| Dull Gwaredu | Didoli i'w losgi |
| Math o Fin/Sach | Bin Metel Gwrthdan / **Sachau coch yn unig** |

## Gofynion Dyletswydd Gofal

**EWC 15 02 02*** " amsugnyddion, deunyddiau hidlo (gan gynnwys hidlyddion olew nad ydynt wedi'u nodi fel arall), clytiau sychu, dillad amddiffynnol wedi'u halogi gan sylweddau peryglus"

**EWC 15 01 10*** "pecynnu sy'n cynnwys gweddillion sylweddau peryglus neu becynnu a halogwyd gan sylweddau peryglus"

**EWC 16 03 03*** "Gwastraff anorganig sy'n cynnwys sylweddau peryglus"

**EWC 16 03 05*** "Gwastraff organig sy'n cynnwys sylweddau peryglus"

Mae'n ofyniad cyfreithiol o dan y Rheoliadau Gwastraff Peryglus i wahanu gwastraff peryglus o wastraff nad yw'n beryglus. Gall gwaredu gwastraff peryglus yn anghywir drwy ffrwd gwastraff nad yw'n beryglus arwain at gosbau cyfreithiol ac ariannol gan ddibynnu ar ddifrifoldeb y diffyg cydymffurfio.

Mae solidau a halogwyd gan gemegau a thoddyddion a gynhyrchwyd yn labordai a gweithdai'r Brifysgol yn fflamadwy iawn ac mae'n rhaid ymdrin â nhw'n ddiwyd.

Mae'r Brifysgol wedi penodi contractwr gwastraff peryglus sy'n cyflenwi gwasanaeth casglu i storfeydd gwastraff cemegol Campysau Singleton a'r Bae.

## Eitemau

Rhaid rhoi pob un o'r eitemau gwastraff solid canlynol sydd wedi'i halogi gan gemegau a gynhyrchwyd gan labordai a gweithdai mewn **sachau coch i'w gwaredu**:

- **Clytiau/weips wedi'u halogi gan doddyddion a phowdr cemegol**
- **Tywelion/roliau papur glas labordy**
- **Pecynnu a halogwyd**
- **Dillad Diogelu Personol (PPE) (mygydau/ffedogau/menig/cotiau labordy tafladwy etc.)**
- **Nwyddau labordy - e.e. papurau hidlo, cynhwysyddion pwyso a mesur, tiwbiau, papur pH, septa, diferyddion**

Nid yw'r rhestr hon yn gynhwysfawr a gellir gwaredu deunyddiau/eitemau eraill yn y sachau coch ar yr amod eu bod un bodloni'r meini prawf canlynol:

- Maent yn deillio o labordy neu amgylchedd gweithdy
- Maent wedi'u halogi gan gemegau
- Ni fyddant yn torri/hollti/rhwygo'r sach – **gweler isod**

Os oes gennych amheuaeth ynghylch a yw unrhyw rai o'r eitemau a restrir uchod wedi'u halogi gan gemegau, rhaid gwahanu'r eitem o'r gwastraff arall a'i rhoi mewn sach goch i'w gwaredu drwy'r storfa gwastraff cemegol.




Ffigur 1: Sach goch a bin priodol

Y sawl sy'n cynhyrchu'r gwastraff sy'n gyfrifol am gael ei sach goch ei hun ar gyfer gwastraff. Argymhellir defnyddio sachau cryf i atal rhwygo. Am arweiniad a chyngor pellach ar sachau coch, e-bostiwch estates-waste@abertawe.ac.uk.

## Cyfarwyddiadau Gwaredu

### Storio Mewnol

Dylai pob labordy a gweithdy sy'n cynhyrchu gwastraff a halogwyd gan gemegau fod â biniau gwastraff sy'n cydymffurfio â'r rheoliadau; mae manyleb safonol wedi'i datblygu ac mae ar gael yma.

### EITEMAU GWAHARDDEDIG

Ni ddylid rhoi unrhyw bethau miniog mewn sachau coch o dan unrhyw amgylchiadau, nac eitemau a allai rwygo'r bag, gan gynnwys blaenau miniog. Mae gwydr yn tyllu'r sachau ac mae ganddo oblygiadau diogelwch ar gyfer darparwyr gwasanaethau gwastraff (gweler WMGN23 Gwydr Labordy wedi'i Dorri a'i Halogi).

Dyma rai enghreifftiau o eitemau labordy **na ddylid** eu rhoi mewn sachau coch (nid yw'r rhestr yn gynhwysfawr):

- Pipedi Pasteur (gwydr neu blastig)
- Pennau pipedi
- Pipedau serolegol
- Tiwbiau samplo
- Chwistrellau
- Nodwyddau chwistrellu
- Ffleimiau/llafnau

- Siswrn
- Offer pwythau llawfeddygol
- Tiwbiau capilari
- Tiwbiau NMR
- Tiwbiau ymdoddbwynt
- Ffiolau - plastig neu wydr
- Eitemau gwydr – p'un a ydynt wedi'u torri neu beidio
- Tiwbiau arbrofol - gwydr neu blastig
- Ysgrifbinnau/pensiliau
- Pecynnau profi
- Tiwbiau Allgyrchol a Micro-allgyrchol
- Sleidiau microsgop
- Sbatwlâu

**Sylwer yr ystyrir bod rhoi sach goch sy'n cynnwys gwastraff wedi'i halogi gan gemegau ym miniau gwastraff ac ailgylchu allanol y Brifysgol yn dramgwydd ac yn fethiant i gydymffurfio â gweithdrefnau'r Brifysgol.**

**Storio Allanol cyn gwaredu - Storfa Gemegau**

**Rhaid** gwaredu sachau coch drwy'r storfeydd cemegau peryglus. **Ni eillir** rhoi sachau coch yn y biniau ar gyfer gwastraff na eillir ei ailgylchu neu'r biniau olwyn ailgylchu.

**Rhaid** bod gan bob sach goch y deuir â hi i'r storfa gwastraff cemegol label Gwastraff Cemegol (gweler WMP Gweithdrefn Defnyddwyr y Storfa Gwastraff Cemegol).

## Cost Gwaredu

Ar hyn o bryd caiff cost gwaredu gwastraff peryglus arferol ei chynnwys yn narpariaeth gwasanaeth rheoli gwastraff y Brifysgol; o ganlyniad, nid oes cost uniongyrchol i unigolion/Gyfadrannau/Unedau Gwasanaethau Proffesiynol. Mae hyn yn gost ac yn effaith amgylcheddol sylweddol i'r Brifysgol, felly cymerir pob cam rhesymol a chydymffurfiol i leihau deunyddiau wedi'u halogi gan gemegau.

Sylwer: Efallai bydd costau'n gysylltiedig â cheisiadau gwastraff peryglus anrheolaidd anarferol neu rai sy'n fawr iawn.

**Am ragor o arweiniad, e-bostiwch** estates-waste@abertawe.ac.uk

## Ffurflenni, Labelu ac arweiniad pellach

- Gellir dod o hyd i labeli ar gyfer biniau sachau coch mewnol isod.
- Gellir dod o hyd i'r holl ffurflenni, labeli a rhagor o arweiniad am wastraff perthnasol yma

# RHYBUDD GWASTRAFF PERYGLUS



## SOLIDAU WEDI'U HALOGI GAN GEMEGAU’N UNIG

### BIN CAEAD TROI METAL YN UNIG - SACH GOCH YN UNIG - EWC 15 02 02 *

## EITEMAU

**CLYTIAU / TYWELION PAPUR / HAENEN A PHECYNNU PLASTIG / MENIG / MYGYDAU / PLASTIGION BACH WEDI'U HALOGI NAD YDYNT YN FINIOG**

**DIM EITEMAU BIOLEGOL / DIM GWYDR O UNRHYW FATH - DIM POTELI WINCHESTER / DIM GWYDR LABORDY WEDI'I DORRI / DIM EITEMAU MINIOG GAN GYNNWYS BLAENAU NEU EITEMAU A FYDD YN RHWYGO'R SACH**

**RHAID GWAREDU SACHAU COCH DRWY'R STORFA GWASTRAFF CEMEGOL / RHAID GWACÁU BINIAU SACHAU COCH YN AML NEU AR UNWAITH PAN FYDDANT YN LLAWN / RHAID RHOI CLYTIAU A THYWELION PAPUR GWLYB A DDEFNYDDIR AR GYFER ARLLWYSIADAU A GLANHAU MEWN SACHAU AR WAHÂN I'W GWAREDU**